

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Polisi a Gweithdrefn Asesu Risg

1. Cyflwyniad
2. I bwy mae'r polisi hwn yn gymwys?
3. Y sefyllfa gyfreithiol
4. Diffiniadau
5. Cyfrifoldebau
6. Asesiad Risg yn Ymarferol

Cam 1 Adnabod y peryglon

Cam 2 Penderfynwch pwy allai gael eu niweidio, a sut

Cam 3 Gwerthuswch y risgiau sy'n deillio o'r peryglon a phenderfynwch a yw'r rhagofalon presennol yn ddigonol neu a ddylid gwneud mwy.

Cam 4 Cofnodwch eich canfyddiadau

Cam 5 Adolygwch eich asesiad ac adolygwch os yw hynny'n angenrheidiol

7. Canllaw ar Werthuso Risg ac Amcan
8. Rheoli Risg

Atodiad 1 Templed Asesu Risg – cyffredinol

Atodiad 2 Templed Asesu Risg – Timau Llwybrau Troed

1. Cyflwyniad

- 1.1 Pwrpas asesiad risg yw nodi peryglon a gwerthuso unrhyw risgiau cysylltiedig i iechyd a diogelwch sy'n deillio o weithgareddau'r Awdurdod. Bydd hyn yn galluogi i benderfyniadau gwybodus gael eu gwneud er mwyn dileu neu leihau unrhyw risg o niwed i'r rhai a allai gael eu heffeithio.

2. I bwy mae'r polisi hwn yn gymwys?

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff a gwirfoddolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (cyfeirir atynt i gyd fel 'gweithwyr' yn y polisi hwn).

3. Y sefyllfa gyfreithiol

- 3.1 Mae asesu risg yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer pob cyflogwr. Diben yr asesiad yw nodi beth sydd angen ei wneud i reoli risgiau iechyd a diogelwch (Rheoliad 3 yn y Rheoliad Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999).
- 3.2 Yn ychwanegol, mae'n ofynnol cynnal asesiadau risg penodol i'r pwnc yn ôl y ddeddfwriaeth gysylltiedig ar gyfer: tân, codi a chario, defnyddio cyfrifiadur, sylweddau sy'n beryglus i iechyd, sŵn, pobl ifanc, mamau beichiog a newydd, darparu a defnyddio offer gwaith, asbestos, plwm, ymbelydredd a phlaladdwyr.

4. Diffiniadau

- 4.1 At ddibenion y polisi a'r weithdrefn hon mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys:

- **Asesiad Risg** – yw archwiliad gofalus o'r hyn, yn eich gwaith, a allai achosi niwed i bobl, fel y gallwch bwyso a mesur a ydych wedi cymryd digon o ragofalon neu a ddylech wneud mwy i atal niwed.
- **Perygl** – rhywbeth sydd â'r potensial i achosi niwed.
- **Risg** – Risg yw'r siawns, uchel neu isel, y gallai rhywun gael ei niweidio gan hyn a pheryglon eraill, ynghyd ag arwydd o ba mor ddifrifol y gallai'r niwed fod.
- **Graddfa Risg** – y dyfarniad cyffredinol ynghylch lefel y risg a allai godi yn sgil y perygl, yn seiliedig ar y tebygolrwydd y bydd y digwyddiad yn digwydd a difrifoldeb dichonol y canlyniad.
- **Asesiad Risg Generig** – yw asesiad unigol sy'n cynnwys y peryglon sylweddol cyffredin lle gall staff a phobl eraill a allai gael eu heffeithio yn sgil gweithgareddau'r Awdurdod eu hwynebu o ddydd i ddydd. Gall y rhain gynnwys gweithgareddau risg isel fel gweithgareddau swyddfa cyffredinol neu weithgareddau ailadroddus y gellir eu dogfennu mewn ffordd arall megis systemau gwaith diogel.
- **Asesiad Risg Dynamig** – yw asesiad sy'n ystyried newidiadau annisgwyl neu rai byr dros dro sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddiwygiadau gael eu gwneud ar unwaith i'r mesurau rheoli asesu risg. Byddai enghreifftiau o hyn yn cynnwys newidiadau yn y tywydd neu systemau gwresogi yn torri i lawr.
- **Asesiad risg addas a digonol** – yw asesiad sydd gymesur â'r risg ac sy'n sicrhau bod yr holl beryglon perthnasol yn cael sylw, yn cydymffurfio â'r gofyniad statudol, yn sicrhau bod yr holl grwpiau sy'n cael eu heffeithio yn cael eu hystyried ac yn ystyried y mesurau rheoli presennol ac yn nodi mesurau pellach yn ôl yr angen.

5. Cyfrifoldebau

5.1 Mae gweithwyr yn gyfrifol am:

- Gynorthwyo gyda, a chymryd rhan yn y broses o asesu risg / cynnal asesiadau risg.

Penaethiaid Gwasanaeth / Mae Rheolwyr Llinell yn gyfrifol am:

- Gynnal asesiadau risg, nodi a gweithredu mesurau rheoli, cyfathrebu canlyniadau yn effeithiol ymysg y gweithwyr ac eraill fel y bo'n briodol.

Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau yn cael eu cyflawni, bod mesurau rheoli yn cael eu nodi a'u gweithredu, a bod y canlyniadau yn cael eu cyfleu i weithwyr ac eraill, fel y bo'n briodol.
- Sicrhau bod y rhai sydd â'r dasg o gwblhau asesiadau risg o fewn y gwasanaethau wedi cael eu hyfforddi'n briodol i wneud hynny.
- Gwneud cynrychiolaeth addas i'r Cyfarwyddwyr os yw asesiadau risg yn adnabod / nodi angen na ddiwallwyd na ellir ei ariannu o fewn adnoddau'r gwasanaeth presennol.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am:

- Ddyrannu adnoddau mewn ymateb pan fo asesiadau risg wedi cael eu cwblhau o fewn y cyfarwyddiaethau a phenderfynu sut i weithredu pe sylweddolir na all risg gael ei reoli yn briodol cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

6. Asesiadau Risg yn Ymarferol

6.1 Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r egwyddorion cyffredinol y dylid eu dilyn ac yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch Gweithredol 'Risk Assessment - a brief guide to controlling risks in the workplace' **INDG 163 (rev 4)**

Cam 1 Adnabod y Peryglon

Cerddwch o gwmpas eich maes cyfrifoldeb chi ac edrych o'r newydd ar yr hyn a ellid yn rhesymol, achosi niwed. Gofynnwch i'r staff ac unrhyw gynrychiolwyr undebau llafur am eu barn nhw - efallai eu bod nhw wedi sylwi ar bethau nad ydynt yn amlwg ar unwaith. Gall cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr neu daflenni data hefyd helpu - fel y gall cofnodion damweiniau a salwch.

Chwiliwch am y peryglon hynny a all, yn rhesymol, arwain at niwed sylweddol o dan yr amodau yn eich gweithle yn unig. Defnyddiwch yr enghreifftiau canlynol fel canllaw:

- Peryglon baglu / llithro (e.e. lloriau neu risiau heb eu cynnal a'u cadw yn dda)
- Tân (e.e. o ddeunyddiau fflamadwy)
- Cemegolion a sut y'i defnyddir a sut maent yn cael eu storio
- Y rhannau hynny o beirianwaith sy'n symud
- Gweithio mewn mannau uchel
- Cerbydau
- Trydan (e.e. weirio gwael, cyfarpar cludadwy)
- Llwch (e.e. greindio metal / haearn, sment ayyb.)
- Gollyngiadau (ffiwms) (e.e. weldio, cemegau)
- Ymdrin â llaw
- Sŵn (peirianwaith neu broses swllyd)

- Goleuo gwael, tymheredd isel ayyb.
- Peryglon biolegol

Cam 2 Penderfynwch pwy allai gael ei niweidio, a sut. Yn ogystal â staff, meddyliwch am bobl sydd ddim yn y gweithle drwy'r amser efallai e.e. glanhawyr, ymwelwyr, contractwyr ac ati

Nid oes angen rhestru unigolion yn ôl eu henw - meddyliwch am grwpiau o bobl sy'n gwneud gwaith tebyg neu a allai gael eu heffeithio, e.e.

- Staff swyddfa
- Glanhawyr
- Contractwyr
- Aelodau o'r cyhoedd

Rhowch sylw arbennig i'r canlynol oherwydd fe allant fod yn fwy agored i niwed:

- Pobl gydag anableddau
- Staff dibrofiad
- Ymwelwyr
- Gweithwyr unig (gweithio ar eu pennau eu hunain)
- Gweithwyr beichiog
- Pobl ifanc ar brofiad gwaith

Mae gan staff gyfrifoldeb i adrodd i'w rheolwr llinell ynghylch unrhyw amgylchiadau personol a fyddai'n newid yr asesiad risg, er enghraifft, unrhyw anabledd dros dro neu barhaol neu gyflwr iechyd a fyddai'n golygu eu bod mewn mwy o berygl.

Cam 3 Gwerthuswch y risgiau sy'n deillio o'r peryglon a phenderfynwch a yw'r rhagofalon presennol yn ddigonol neu a ddylid gwneud mwy.

Ar ôl nodi'r peryglon, rhaid i chi wedyn benderfynu pa mor debygol yw hi y bydd niwed yn digwydd, h.y. lefel y risg a beth i'w wneud am y peth. Mae risg yn rhan o fywyd bob dydd ac ni ddisgwylir i chi i gael gwared ar bob risg. Beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod am y prif risgiau a'r pethau sydd angen i chi eu gwneud er mwyn eu rheoli.

Yn gyffredinol, mae angen i chi wneud popeth sy'n 'rhesymol ymarferol' i amddiffyn pobl rhag niwed. Dylai eich asesiad risg ddim ond cynnwys yr hyn y gellid yn rhesymol ddisgwyl i chi wybod - nid oes disgwyl i chi ragweld risgiau na ellir eu rhagweld.

Os byddwch yn dod o hyd i rywbeth y mae angen ei wneud, gofynnwch i chi eich hunan:

- A oes modd cael gwared ar y perygl yn gyfan gwbl?
- Os ddim, sut alla i reoli'r risgiau i sicrhau bod niwed yn annhebygol?

Mae rhai camau ymarferol y gallech eu cymryd yn cynnwys:

- Rhoi cynnig ar opsiwn llai peryglus
- Atal mynediad at y perygl

- Trefnu gwaith i leihau dod i gysylltiad â'r perygl
- Darparu cyfarpar diogelu (dim ond defnyddio cyfarpar diogelu personol pan nad oes unrhyw beth arall y gellir ei wneud yn rhesymol)
- Darparu cyfleusterau lles megis Cymorth Cyntaf a chyfleusterau ymolchi
- Cynnwys ac ymgynghori â gweithwyr.

Lleihau'r risgiau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol (cydbwysedd rhwng y risg a chost mesurau ataliol o ran amser, arian ac ymdrech h.y. ni fyddai'n rhesymol ymarferol i fuddsoddi symiau sylweddol o arian ac amser pan fo'r perygl a'r lefel anafiadau yn isel iawn, ond byddai'n rhesymol ymarferol cyflwyno pob mesur posibl pan fo'r risg yn uchel a'r canlyniadau posibl yw marwolaeth neu anaf difrifol).

Cam 4 Cofnodi eich canfyddiadau

Mae hyn yn golygu nodi'r peryglon mwy arwyddocaol yn ysgrifenedig a chofnodi'r casgliadau pwysicaf e.e. 'Cyfarpar trydanol cludadwy wedi'i archwilio a'i brofi a gwelwyd ei fod yn ddiogel' neu 'mwg o weldio: darparwyd awyriad gwacau lleol ac mae'n cael ei archwilio'n rheolaidd'.

Mae'n rhaid i staff gael gwybod am ganfyddiadau'r asesiad risg.

Mae'n rhaid i'r asesiad risg fod yn addas ac yn ddigonol h.y. dylai ddangos y canlynol:

- Aethpwyd ati i'w archwilio'n briodol
- Eich bod wedi gofyn pwy allai gael ei effeithio
- Eich bod wedi ymdrin â'r holl beryglon sylweddol amlwg, gan ystyried nifer y bobl a allai fod yn cymryd rhan
- Mae'r rhagofalon yn rhesymol, ac mae'r risg sy'n weddill yn isel
- Eich bod wedi cynnwys eich cyflogeion neu eu cynrychiolydd yn y broses.

Os yw eich asesiad risg yn nodi nifer o beryglon, mae'n rhaid i chi eu rhoi mewn trefn pwysigrwydd a mynd i'r afael â'r risgiau mwyaf difrifol yn gyntaf.

Dylid pennu atebion hirdymor ar gyfer y risgiau â'r canlyniadau mwyaf, yn ogystal â'r risgiau sydd fwyaf tebygol o achosi damweiniau neu salwch.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys templed asesu risg at ddibenion cofnodi canfyddiadau. Gweler Atodiad 1 ar gyfer y templed cyffredinol ac Atodiad 2 ar gyfer templed y Timau Llwybrau Troed.

Cam 5 Adolygu eich asesiad a'i ddiwygio os oes angen

Dylai'r asesiad risg gael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn neu pan gyflwynir cyfarpar, sylweddau neu weithdrefnau newydd a allai arwain at beryglon newydd.

Er mwyn sicrhau bod eich asesiad risg yn aros yn gyfoes, gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi eich hun wrth eu hadolygu:

- A fu unrhyw newidiadau arwyddocaol?
- A oes unrhyw welliannau yr ydych chi angen eu gwneud o hyd?
- A yw'r staff wedi dod ar draws problem?

- A ddysgwyd unrhyw beth o ddamweiniau neu rai a fu bron â digwydd?

Cofiwch nodi, arwyddo a dyddio'r asesiad risg pan fydd wedi'i adolygu a gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu sylw ato ymhlith yr holl aelodau perthnasol o staff a phobl eraill a allai gael eu heffeithio.

7. Canllaw ar Werthuso ac Amcangyfrif Risg

Unwaith y pennir peryglon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau, fe ddaw'n angenrheidiol i ganfod pa ganlyniadau neu ddigwyddiadau peryglus posibl a allai fod yn gysylltiedig â'r perygl.


Y cam nesaf yw archwilio'r tebygolrwydd i ddigwyddiad peryglus ddigwydd.

Unwaith y pennir y tebygolrwydd dylid ystyried difrifoldeb tebygol y digwyddiad peryglus.

Mae'r model pwynt cyntaf isod wedi'i adlewyrchu yn ein templed asesu risg:

	Tebygolrwydd		Difrifoldeb
1.	Isel iawn. Nid yw erioed wedi digwydd.	1.	Toriadau neu gleisiau, mân lidau dros dro.
2.	Annhebygol. Wedi digwydd unwaith.	2.	Toriadau dwfn, mân losgiadau, lliadau llygaid, croen neu'r ysgyfaint, sioc drydanol fach, problemau dros dro o dasgau ailadroddus, sgaldiadau bach. Risgiau haint tymor byr na fydd yn arwain at golli amser. Torri bys ar y llaw / troed. Poen cefn drwg am un neu ddau ddiwrnod. Sawl unigolyn yn dioddef sawl achos lefel 1.
3.	Posibl. Wedi digwydd unwaith, bron â digwydd sawl gwaith.	3.	Torri aelod o'r corff, niwed posibl yn y tymor byr i'r llygaid neu'r ysgyfaint, neu fân broblemau ailadroddus, sensiteiddiad, poen cefn tymor byr > 2 ddiwrnod, sioc drydanol fawr, risgiau haint er nad ydynt yn bygwth bywyd yn gallu arwain at golli amser. Losgiadau cemegol i'r croen gydag effeithiau sy'n para am hyd at fis, sawl achos lefel 2.
4.	Tebygol. Anafiadau wedi digwydd ychydig o weithiau.	4.	Anabledd llwyr / rhannol, colli bysedd, anaf difrifol i'r pen, anaf tymor hir i'r llygad, niwed tymor hir i'r ysgyfaint, effeithiau iechyd tymor hir / cronig yn cynnwys problemau cefn, difrod i'r clyw, risgiau iechyd tymor hir difrifol posibl o haint, coma, llosg cemegol â chreithiau parhaol, sawl achos lefel 3.
5.	Bron yn sicr. Anafiadau'n digwydd yn rheolaidd.	5.	Marwolaeth, tân mawr, ffrwydrad, sawl achos lefel 4 a 5.

Mae'r matrices isod yn dangos sut y gellir gwerthuso risgiau drwy ddefnyddio'r model pum pwynt i bennu gradd risg:



Unwaith y pennir gradd y risg, mae wedyn yn bosibl defnyddio'r tabl isod i sefydlu'r camau priodol sy'n angenrheidiol:

Gradd Risg	Disgrifiad	Camau
1 – 5	Risg isel iawn	Ystyried camau adferol dim ond lle nad oes costau gormodol.
6 – 15	Risg isel i ganolig	Cynllunio camau adferol dros y tymor canolig, gan gydbwyso costau a risg.
16 – 20	Risgiau uchel	Trin fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i leihau / dileu'r risg.
21 – 25	Risg eithriadol uchel o gael anaf difrifol	Argymhell gwahardd y gwaith nes byddir wedi cymryd camau adfer

8. Rheoli Risg

Bydd mesurau rheoli risg addas a digonol yn cael eu nodi a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau'n cael eu rheoli'n briodol ac yn bodloni gofynion cyfreithiol o leiaf. Bydd yr holl fesurau rheoli risg yn dilyn yr hierarchaeth rheoli risg fel y nodir yn y weithdrefn hon.

Mesurau rheoli risg yw dulliau a ddefnyddir i leihau / rheoli risg sy'n codi o'r perygl.

Hierarchaeth rheoli risg	
Dileu'r risg	Osgoi'r risg yn gyfan gwbl drwy gael gwared ar y perygl neu roi'r gorau i ymgymryd â'r gweithgaredd.
Amnewid y risg	Lleihau'r risg drwy ddisodli'r perygl neu weithgaredd gydag un sy'n golygu llai o risg.
Rheoli'r risg (Corfforol)	Rheoli'r risg drwy ynysu corfforol neu wahanu pobl o'r perygl.
Rheoli'r risg (Gweithdrefnol)	Rheoli'r risg drwy ddulliau gweithdrefnol sy'n cael eu deall a'u gweithredu'n effeithiol; systemau gweithio diogel, gwybodaeth, hyfforddiant, cyfarwyddyd, goruchwyliaeth ac ati.
Diogelu'r unigolyn	Diogelu'r unigolyn drwy ddarparu cyfarpar diogelu personol.

Wrth ystyried mesurau rheoli ychwanegol dylid sicrhau na fyddant yn cyflwyno unrhyw beryglon newydd.

Pan fydd mesurau rheoli wedi'u pennu a'u cytuno mae'n rhaid iddynt gael eu blaenoriaethu, eu rhoi mewn cynllun gweithredu a'u rhoi ar waith. Mae'n rhaid i'r cynllun gweithredu fod yn glir ynghylch beth yn union y mae angen ei wneud, pryd a gan bwy gydag amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol). Rhaid monitro ac adolygu'r broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith.

Awst 2016